# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Mai 2017

Amser: 13.15 - 16.06

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4097

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd)<br>Dafydd Elis-Thomas AC<br>Nathan Gill AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Tystion: | Dr Paul Cairney, Uwch-ddarlithydd mewn gwleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol, Prifysgol Stirling<br>Yr Athro Thomas Glyn Watkin<br>Rhodri Williams, Ofcom<br>David Hughes, Bargyfeithiwr |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)<br>Alys Thomas (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 445KB) Gweld fel HTML

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Gwnaeth y Cadeirydd ddatganiad agoriadol yn talu teyrnged i'r diweddar Gwir Anrhydeddus Rhodri Morgan, a fu farw yr wythnos diwethaf.

## 2 Ymchwiliad i sicrhau llais cryfach i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 10

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)105 – Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017

### 3.2 SL(5)106 – Gorchymyn Adeiladau Rhestredig (Gwaith Brys) (Cyfradd Llog ar Dreuliau) (Cymru) 2017

### 3.3 SL(5)107 – Rheoliadau Henebion Hynafol (Hawliadau am Ddigolllediad) (Cymru) 2017

### 3.4 SL(5)108 – Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) 2017

### 3.5 SL(5)109 – Rheoliadau Henebion Hynafol (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Cymru) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)110 - Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7

### 5.1 SL(5)104 - Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Busnes ac Ysgrifenyddion y Cabinet perthnasol yn ymwneud â'r geiriau 'dylai' a 'rhaid' yn y Cod ac yn y Canllawiau Statudol - Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru.

## 6 Papur i'w nodi

### 6.1 Llythyr gan Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaethol Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Senedd Awstralia

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

### 6.2 Ymateb y Llywodraeth i SL(5)090 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017

Trafododd y Pwyllgor ymateb y Llywodraeth i SL(5)090 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017, a oedd ar gael ar ôl cyhoeddi papurau'r cyfarfod. Nododd y Pwyllgor yr ymateb ac roedd yn fodlon â'r sylwadau yn ymwneud â materion hawliau dynol o ran y terfyn oed. Fodd bynnag, nid oedd y Pwyllgor yn teimlo bod yr ymateb yn mynd i'r afael yn llawn â phryderon y Pwyllgor ynghylch carcharorion cymwys.
Cytunodd y Pwyllgor i osod adroddiad atodol gerbron y Cynulliad ac i ysgrifennu at y Llywodraeth ynghylch carcharorion cymwys.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Ymchwiliad Llais Cryfach i Gymru: trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Bil y Diddymu Mawr: Trafodaeth

Trafododd y Pwyllgor faterion yn ymwneud â Phapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Fil y Diddymu Mawr.